# Local TV Limited

## Cais am newid ymrwymiadau rhaglennu

**YMGYNGHORIAD**

Dyddiad cyhoeddi: 08 Mawrth 2022
Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 05 Ebrill 2022

# Cynnwys

## Adran

1. Overview 3

2. Manylion a gwybodaeth gefndir 4

3. Ystyriaeth o'r Ceisiadau am Amrywiad 7

## Atodiad

A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn 11

A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom 14

A3. Taflen glaw yr ymgynghoriad 15

A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad 16

A5. Cais am Amrywiad gan Local TV Limited 17

# 1. Trosolwg

Mae gan Local TV Limited ("Local TV") nifer o drwyddedau gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol ar draws y DU. Mae'n rhaid i'r gwasanaethau a ddarperir o dan y trwyddedau hyn fodloni rhwymedigaethau cynnwys penodol a nodir yn y drwydded, a elwir yn 'ymrwymiadau rhaglennu'.

Mae Local TV Limited wedi gwneud cais i Ofcom am newid yr ymrwymiadau rhaglennu mewn saith o'i drwyddedau, fel a ganlyn:

- Birmingham TV
- Bristol TV
- Cardiff TV
- Leeds TV
- Liverpool TV
- Tyne and Wear TV
- Teesside TV

### Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Rydym wedi penderfynu, ym mhob achos, fod y newidiadau y mae Local TV Limited yn gofyn amdanynt yn gyfystyr â gwyriad oddi wrth gymeriad y gwasanaeth trwyddedig. Mae'r hysbysiad hwn yn nodi manylion cynigion Local TV ac yn gwahodd cynrychiolaeth gan bobl y gallai'r newidiadau hyn effeithio arnynt.

Mae gennym farn gychwynnol ynghylch y ceisiadau. Rydym o'r farn i'w caniatáu am y rhesymau a amlinellir yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, rydym yn ceisio barn ar y ceisiadau cyn i ni wneud penderfyniadau terfynol. Mae'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau yn cau am **5pm ar 05 Ebrill 2022.**

# 2. Manylion a gwybodaeth gefndir

2.1 Cyflwynodd Local TV Limited y ceisiadau hyn i Ofcom ar 18 Ionawr 2022 mewn perthynas â saith o'i drwyddedau gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol ("L-DTPS").

2.2 Y saith trwydded yw'r rhai ar gyfer Birmingham, Bryste, Caerdydd, Leeds, Lerpwl, Teesside a Tyne and Wear.

2.3 Mae'r drwydded ar gyfer pob gwasanaeth teledu lleol yn cynnwys cyfres o ymrwymiadau rhaglennu, sy'n disgrifio math a maint y rhaglennu sy'n berthnasol yn lleol y mae'n ofynnol i'r trwyddedeion ei ddarparu. Gwneir yr ymrwymiadau hyn gan y trwyddedai fel rhan o'u cais am y drwydded.

2.4 Gall trwyddedeion ofyn i Ofcom newid eu hymrwymiadau rhaglennu yn unol ag amodau eu trwydded a'u darpariaethau statudol perthnasol. Disgrifir y rhain isod.

2.5 Mae'r amrywiadau hyn yn ymwneud â'r ymrwymiadau rhaglennu sy'n adlewyrchu cymeriad y gwasanaeth trwyddedig, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â rhaglennu lleol a ddarlledir am y tro cyntaf (gan gynnwys rhaglenni newyddion a materion cyfoes lleol).

2.6 Byddwn yn cymryd yr holl sylwadau a wneir mewn ymateb i'r hysbysiad hwn i ystyriaeth (waeth p'un a ydynt yn ymwneud â gwasanaethau unigol neu'r holl geisiadau gyda'i gilydd) wrth benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad i'r newidiadau y gofynnir amdanynt ai beidio. Bydd Ofcom yn gwneud penderfyniadau unigol ar gyfer pob un o'r saith amrywiad y gofynnir amdanynt.

2.7 Yn yr adran hon, rydym yn nodi:

a) y fframwaith cyfreithiol sy'n berthnasol i ystyriaeth Ofcom o newidiadau i ymrwymiadau rhaglennu mewn trwyddedau L-DTPS;

b) trosolwg o'r newidiadau y gofynnir amdanynt gan Local TV Limited.

## Fframwaith Cyfreithiol

2.8 Mae adran 19(3A)(c) Deddf Darlledu 1996 (y "Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gynnwys amodau mewn trwyddedau L-DTPS er mwyn sicrhau bod cymeriad y gwasanaeth trwyddedig, fel y'i cynigir gan ddeiliad y drwydded wrth wneud y cais am y drwydded honno, yn cael ei gynnal drwy gydol cyfnod y drwydded.

2.9 Felly, rydym yn cynnwys gofyniad yn amod 5(1) pob trwydded L-DTPS fod yn rhaid i'r trwyddedai gynnal cymeriad y gwasanaeth trwyddedig trwy gydol y drwydded yn unol â'r ymrwymiadau rhaglennu a nodir yn y drwydded.

2.10 Cyfyngir ar yr amgylchiadau lle y gallwn ganiatáu newid cymeriad y gwasanaeth trwyddedig gan adran 19(3B) y Ddeddf. O ganlyniad, mae amod 5(2) yr holl drwyddedau L-DTPS yn darparu y gall Ofcom, gan ddilyn y weithdrefn a nodir yn y Ddeddf, roi cydsyniad i wyriad oddi wrth gymeriad y gwasanaeth trwyddedig ddim ond os yw'n fodlon:

a) Na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth trwyddedig yn sylweddol;

b) Ni fyddai'r gwyriad yn arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer ac amrywiaeth y rhaglenni am yr ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer;

c) Ni fyddai'r gwyriad yn arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer y rhaglenni a wneir yn yr ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer; a

d) Byddai'r gwasanaeth yn parhau i ddiwallu anghenion yr ardal neu'r ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer.

2.11 Cyn penderfynu a ddylid rhoi cydsyniad i wyriad oddi wrth gymeriad gwasanaeth trwyddedig ar unrhyw un o'r seiliau a nodir uchod, mae adran 19(3C) y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gyhoeddi hysbysiad sy'n nodi:

a) Y gwyriad arfaethedig; a'r

b) Cyfnod pan ellir cyflwyno sylwadau i Ofcom ynghylch y cynnig. Mae'n rhaid i'r cyfnod hwn ddod i ben yn hwyrach na 28 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad hwn.

2.12 Mae'r ddogfen hon yn gyfystyr â'r hysbysiad hwnnw.

## Y Ceisiadau am Amrywiad

2.13 Mae'r newidiadau meintiol y gofynnir amdanynt gan Local TV Limited ar gyfer pob un o'r saith trwydded wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

| | Newidiadau i raglennu lleol yr wythnos (Darllediadau tro cyntaf) | Newidiadau i raglennu lleol yr wythnos (Ailddarllediadau) | Newidiadau i oriau ac amserlenni rhaglennu newyddion a materion cyfoes lleol yr wythnos (Darllediadau tro cyntaf) | Newidiadau i oriau ac amserlenni rhaglennu newyddion a materion cyfoes lleol yr wythnos (Ailddarllediadau) |
|---|---|---|---|---|
| **Birmingham** | **Presennol:** 35 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 21 awr | **Presennol:** 21 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 5 awr | **Presennol:** 20 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 10.5 awr | **Presennol:** 3 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 1 awr |
| **Bryste** | **Presennol:** 37 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 21 awr | **Presennol:** 21 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 5 awr | **Presennol:** 8 awr | **Presennol:** 1 awr |
| **Caerdydd** | **Presennol:** 37 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 21 awr | **Presennol:** 21 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 5 awr | **Presennol:** 8 awr | **Presennol:** 1 awr |

| | Newidiadau i raglennu lleol yr wythnos (Darllediadau tro cyntaf) | Newidiadau i raglennu lleol yr wythnos (Ailddarllediadau) | Newidiadau i oriau ac amserlenni rhaglennu newyddion a materion cyfoes lleol yr wythnos (Darllediadau tro cyntaf) | Newidiadau i oriau ac amserlenni rhaglennu newyddion a materion cyfoes lleol yr wythnos (Ailddarllediadau) |
|---|---|---|---|---|
| **Leeds** | **Presennol:** 37 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 21 awr | **Presennol:** 21 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 5 awr | **Presennol:** 8 awr | **Presennol:** 1 awr |
| **Lerpwl** | **Presennol:** 35 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 21 awr | **Presennol:** 21 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 5 awr | **Presennol:** 10 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 8 awr | **Presennol:** 7 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 1 awr |
| **Teesside** | **Presennol:** 37 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 21 awr | **Presennol:** 21 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 5 awr | **Presennol:** 12 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 8 awr | **Presennol:** 2 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 1 awr |
| **Tyne and Wear** | **Presennol:** 37 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 21 awr | **Presennol:** 21 awr<br>**Yr hyn a gynigir:** 2 awr | **Presennol:** 8 awr | **Presennol:** 1 awr |

2.14 At hynny, mae Local TV Limited wedi cynnig rhai diwygiadau i adran "allbwn rhaglennu" ansoddol pob un o'r ymrwymiadau rhaglennu. Ceir fersiwn nad yw'n gyfrinachol o cais Cardiff TV am amrywiad yn Atodiad A5.

2.15 Roedd Ofcom o'r farn y byddai'r diwygiadau y gofynnir amdanynt yn y ceisiadau am amrywiad, ym mhob achos, yn gyfystyr â gwyriad oddi wrth gymeriad y gwasanaeth. Effaith y ceisiadau yw lleihau maint y rhaglennu lleol a ddarlledir am y tro cyntaf (gan gynnwys rhaglenni newyddion a materion cyfoes lleol), a allai arwain at ddarlledu mwy o gynnwys nad yw'n lleol ar y gwasanaeth ac felly newid 'cymeriad y gwasanaeth.’ Felly, mae Ofcom yn cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus sy'n gofyn am farn ar y ceisiadau am amrywiad.

# 3. Ystyriaeth o'r Ceisiadau am Amrywiad

3.1 Fel y nodir yn adran 2 yr ymgynghoriad hwn, gall Ofcom ganiatáu newid cymeriad gwasanaeth teledu lleol trwyddedig os yw'n fodlon bod y meini prawf a nodir yn adran 19(3B) y Ddeddf wedi'u bodloni. Mae'r adran hon o'r ddogfen ymgynghori yn nodi:

a) crynodeb o resymau Local TV Limited dros wneud y Ceisiadau am Amrywiad;

b) ymagwedd Ofcom at ystyried y ceisiadau; a'n

c) barn gychwynnol ynghylch y Ceisiadau am Amrywiad, gan roi sylw i'r meini prawf statudol.

## Rhesymau Local TV dros y Ceisiadau am Amrywiad

3.2 Mae Local TV Limited wedi datgan mai diben y ceisiadau am amrywiad yw "safoni gofynion ar draws y trwyddedau y mae'n eu dal, yn ogystal â chysoni ymrwymiadau Local TV â darparwyr LTVN [Rhwydwaith Teledu Lleol] eraill.”

3.3 Mae Local TV Limited yn dadlau ei fod wedi ymrwymo i wasanaethu cynulleidfaoedd lleol a bydd yn "parhau â'i strwythur o gyflwyno newyddion, chwaraeon ac adloniant lleol," ac y "gall cynulleidfaoedd ddisgwyl cymaint o gynnwys lleol ag y maent wedi'i gael erioed, gyda chynnwys yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well drwy fwy o hyblygrwydd o fewn yr amserlen.”

## Ymagwedd Ofcom

3.4 Wrth ystyried y ceisiadau hyn, rydym wedi bod yn ymwybodol o effaith gronnus y gwahanol newidiadau a nodir yn y ceisiadau am amrywiad, ynghyd â'r ymrwymiadau gwreiddiol a gynigiwyd gan y trwyddedai perthnasol pan ddyfarnwyd y trwyddedau am y tro cyntaf.

3.5 Rhoddwyd sylw hefyd i'n datganiad ym mis Mai 2012 a nododd sut yr oeddem yn bwriadu arfer ein pwerau a'n dyletswyddau i drwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd. Mae'n amlinellu ein hisafswm disgwyliad ar gyfer darlledu darpariaeth newyddion lleol, sef "y byddem yn annhebygol o ystyried bod llai na saith awr i gyd o newyddion darlledu yr wythnos yn ormod o faich i hyd yn oed y trwyddedai L-DTPS lleiaf..." (tudalen 5, adran 1.47).

3.6 Rhoddwyd sylw i'r datganiad hwn wrth ystyried y ceisiadau sy'n ymwneud â'r gostyngiadau arfaethedig mewn rhaglennu lleol a ddarlledir am y tro cyntaf. Yn ei geisiadau, mae Local TV Limited yn cynnig bod ei ymrwymiad i raglennu lleol a ddarlledir am y tro cyntaf yn gostwng 43% ar gyfer gwasanaethau Bryste, Caerdydd, Leeds, Tyne a Wear a Teesside, a gostyngiad ychydig yn llai o 40% ar gyfer gwasanaethau Birmingham a Lerpwl (gan fod eu hymrwymiadau presennol ychydig yn uwch).

3.7 Nodwn hefyd, mewn perthynas â rhaglennu newyddion a materion cyfoes lleol a ddarlledir am y tro cyntaf, fod y ceisiadau ar gyfer gwasanaethau Lerpwl a Teesside eisiau gostwng hyn i wyth awr yr wythnos, ac i 10.5 awr yr wythnos ar gyfer gwasanaeth Birmingham. Ni

chynigir unrhyw newid ar gyfer gwasanaethau Bryste, Caerdydd, Leeds na Tyne & Wear, a fydd yn parhau ar wyth awr yr wythnos.

## Barn gychwynnol Ofcom

3.8 Rydym o'r farn i roi ein cydsyniad i bob un o'r ceisiadau gan Local TV Limited oherwydd, yn ein barn gychwynnol, y byddai'r amrywiadau arfaethedig yn:

- peidio â newid cymeriad y gwasanaeth trwyddedig yn sylweddol;
- peidio ag arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer ac amrywiaeth y rhaglenni am yr ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer;
- peidio ag arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer y rhaglenni a wneir yn yr ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer; ac yn
- parhau i ddiwallu anghenion yr ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer.

3.9 Yr ydym hefyd wedi ystyried cynaladwyedd y gwasanaethau hyn. Mae hwn yn ffactor pwysig; Mae Ofcom yn barod i gefnogi'r sector teledu lleol drwy fod yn hyblyg wrth ystyried ceisiadau am ostyngiadau mewn perthynas ag ymrwymiadau rhaglennu.

3.10 Er hynny, rydym yn cydnabod bod angen cydbwyso hyn yn erbyn y ffaith bod gostyngiadau mewn ymrwymiadau yn wynebu'r risg o gynyddu maint y cynnwys nad yw'n lleol a ddarlledir ar y gwasanaethau.

3.11 Yr hyn sy'n dilyn yw esboniad o'n sail resymegol dros ein barn gychwynnol yn erbyn pob un o'r meini prawf statudol perthnasol.

**Sail (a): ni fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol**

3.12 Yn ei gynnig, mae Local TV Limited yn dadlau:

- ei fod yn ymrwymedig i wasanaethu cynulleidfaoedd lleol, gan gynnwys newyddion, chwaraeon ac adloniant o fewn yr ardal leol. Bydd yn parhau â'i strwythur o newyddion, chwaraeon ac adloniant lleol parhaus, felly ni fydd cymeriad y gwasanaeth ar draws y trwyddedau'n newid yn sylweddol; a
- gall cynulleidfaoedd ddisgwyl cymaint o gynnwys lleol ag y maent wedi'i gael erioed, gyda chynnwys yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well drwy fwy o hyblygrwydd o fewn yr amserlen.

3.13 Ar ôl ystyried yn ofalus, rydym o'r farn y byddai maint y rhaglennu lleol y mae'n ofynnol i bob gwasanaeth ei ddarparu yn ddigon mawr o hyd i ddarparu'r isafswm cynnwys lleol disgwyliedig fel y'i mynegir yn ein datganiad o fis Mai 2012, ac y byddai ymrwymiad o hyd i ddarparu newyddion a materion cyfoes lleol a ddarlledir am y tro cyntaf.

3.14 O ran pob gwasanaeth, credwn na fyddai'r rhan fwyaf o wylwyr yn debygol o nodi unrhyw newid sylweddol i'r gwasanaeth. Byddai'r cynigion yn dal i ymrwymo'r trwyddedai i ddarlledu cyfran sylweddol o'i raglennu lleol yn yr oriau brig, gan gynnal cymeriad gwasanaethau'r holl drwyddedau. Er y byddai cyfanswm y rhaglennu lleol a ddarlledir am y tro cyntaf yn cael ei ostwng, rydym yn cydnabod y byddai natur ailadroddus yr allbwn

rhaglennu hefyd yn gostwng, gan arwain at gynnig newyddion a materion cyfoes o ansawdd gwell i wylwyr yn y lle cyntaf.

3.15 Nodwn fod Local TV Limited wedi cynnig gostyngiad o fwy na 50% yn ei ymrwymiad i ddangos ailddarllediadau o gynnwys lleol. Er i ni gydnabod bod cynnwys ailddarlledu'n caniatáu i wylwyr 'ddal i fyny' ar y cynnwys lleol a ddarperir gan y gwasanaeth trwyddedig, a bod gan y fath gynnwys rôl felly wrth ddiffinio cymeriad y gwasanaeth, mae hyn yn debygol o fod yn llai pwysig a chael llai o effaith na sicrhau maint derbyniol o raglennu lleol a ddarlledir am y tro cyntaf. Felly, rydym o'r farn na fyddai'r gostyngiad arfaethedig hwn mewn rhaglennu ailddarlledu yn gwyriad sylweddol oddi wrth gymeriad y gwasanaethau trwyddedig.

3.16 Yn ein barn ni, mae sicrhau swm derbyniol o raglennu lleol a ddarlledir am y tro cyntaf, yn ystod oriau brig ac ar draws y gwasanaeth yn gyffredinol, yn chwarae rhan bwysig yng nghymeriad y gwasanaeth, gyda llai o bwyslais ar raglennu ailddarlledu.

3.17 Felly, rydym yn fodlon ar sail gychwynnol, pe baem yn rhoi cydsyniad i'r gwyriad ym mhob achos, na fyddai'r newidiadau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig yn newid cymeriad pob gwasanaeth yn sylweddol.

**Sail (b): ni fyddai'r gwyriad yn arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer ac amrywiaeth y rhaglenni am yr ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer**

3.18 Rydym yn cydnabod bod nifer (ac o bosib yr amrywiaeth) o raglenni a wneir am bob un o'r ardaloedd a wasanaethir gan y trwyddedau sydd wedi'u cynnwys yn y cais hwn yn debygol o gael eu gostwng os caiff y newidiadau hyn eu cymeradwyo, ond nid ydym yn credu y byddai'r gostyngiadau hyn yn annerbyniol o ystyried bod yr holl wasanaethau wedi ymrwymo i barhau i ddangos cynnwys lleol, gan gynnwys newyddion, chwaraeon ac adloniant lleol o fewn yr ardaloedd lleol a byddai'n ofynnol o hyd iddynt ddarparu 21 awr yr wythnos o raglennu lleol a ddarlledir am y tro cyntaf (y bydd o leiaf wyth[1] ohonynt yn newyddion a materion cyfoes lleol).

3.19 Nid ydym o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig i adran allbwn rhaglennu ansoddol yr ymrwymiadau rhaglennu ym mhob trwydded ynddynt eu hunain yn arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer ac amrywiaeth y rhaglenni am yr ardal leol. Er i ni nodi y cynigir dileu ymrwymiad penodol y "Caiff grwpiau crefyddol eu dangos yn rheolaidd ar draws newyddion ac adloniant" o drwydded Lerpwl, rydym o'r farn bod cyfranogiad o'r fath yn debygol o barhau ar ryw ffurf gan y bydd yn ofynnol o hyd i'r gwasanaeth "adlewyrchu bywyd yn yr ardal a drwyddedir a'r cylch, ac amrywiaeth y gymuned”.

3.20 Felly, rydym yn fodlon ar sail gychwynnol, pe baem yn rhoi cydsyniad i wyriad oddi wrth gymeriad y gwasanaeth ar gyfer pob trwydded, na fyddai'n arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer ac amrywiaeth y rhaglenni a wneir am yr ardal y mae pob un o'r gwasanaethau wedi'i drwyddedu ar ei chyfer.

**Sail (c): ni fyddai'r gwyriad yn arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer y rhaglenni a wneir yn yr ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer**

[1] 10.5 awr, yn achos gwasanaeth Birmingham.

3.21 Am y rhesymau a amlygwyd yn yr adran uchod, er i ni gydnabod y gallai nifer ac amrywiaeth y rhaglenni ostwng o ganlyniad i'r newidiadau y gofynnir amdanynt, rydym yn fodlon ar sail gychwynnol na fyddai unrhyw ostyngiad yn arwain at ostyngiad annerbyniol yn nifer y rhaglenni a wneir ym mhob ardal. Crëir yr holl raglenni a wneir at ddiben darlledu ar wasanaeth penodol o fewn ardal drwyddedig y gwasanaeth; ni fwriedir i'r cais am amrywiad hwn newid y rhinwedd hon.

**Sail (d): byddai'r gwasanaeth yn parhau i ddiwallu anghenion yr ardal neu'r ardal y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu ar ei chyfer**

3.22 Mae Local TV yn dadlau y byddai'r holl wasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cais hwn yn parhau i ddiwallu anghenion yr ardal y maent yn ei gwasanaethu. Dywed Local TV Limited y bydd yn parhau i roi llais i gynulleidfaoedd lleol ar storïau sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd yn parhau i gynnwys newyddion, chwaraeon ac adloniant lleol, gan ganolbwyntio ar faterion sy'n bwysig i'r cymunedau lleol.

3.23 Am yr holl resymau a nodir uchod, rydym yn fodlon ar sail gychwynnol, pe baem yn rhoi cydsyniad i wyriad yng nghymeriad y gwasanaeth ym mhob achos, y byddai pob gwasanaeth yn parhau i ddiwallu anghenion yr ardal. Yn benodol, rydym yn ystyried y bydd y newidiadau y gofynnir amdanynt yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r trwyddedai ddarparu'r ffocws angenrheidiol ar y cynnwys lleol y mae gwylwyr yn ei gael yn fwyaf gwerthfawr.

**Penderfyniadau cychwynnol Ofcom ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad i'r gwyriad oddi wrth y gwasanaethau trwyddedig**

3.24 Am y rhesymau a restrir uchod, rydym o'r farn y byddwn yn cymeradwyo'r ceisiadau a gyflwynwyd gan Local TV Limited. Yr ydym yn ceisio cynrychioliadau ar y farn gychwynnol hon, a sylwadau ar y ceisiadau unigol am amrywiad ar gyfer pob un o'r saith gwasanaeth, y byddwn yn eu cymryd i ystyriaeth pan fyddwn yn gwneud ein penderfyniadau terfynol.

# A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut i ymateb

A1.1 Hoffai Ofcom dderbyn safbwyntiau a sylwadau ar y materion a godir yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 05 Ebrill 2022.

A1.2 Gallwch lawrlwytho’r ffurflen ymateb yn https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-3/local-tv-limited-request-to-change-programming-commitments. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i’r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu ei fod yn cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, anfonwch ef trwy e-bost i localtvlimitedconsultation@ofcom.org.uk, fel atodiad yn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r daflen glawr. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn ddilys ar ôl 11 Ebrill 2022.

A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, wedi'u marcio â theitl yr ymgynghoriad:

At sylw Tîm Trwyddedu Darlledu Ofcom
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A1.5 Rydym yn croesawu ymatebion mewn fformatau heblaw print, er enghraifft recordiad sain neu fideo Iaith Arwyddion Prydeinig. I ymateb yn BSL:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n arwyddo eich ymateb. Dylai hyn fod yn 5 munud ar y mwyaf. Fformatau ffeil addas yw DVD, wmv neu QuickTime; neu
- Uwchlwythwch fideo ohonoch chi'n arwyddo eich ymateb yn uniongyrchol i YouTube (neu wefan letya arall) ac anfonwch y ddolen atom.

A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a dderbyniwn (oni bai bod eich ymateb yn gyfrinachol)

A1.7 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ychwanegol at fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymateb anfonwyd atom trwy e-bost.

A1.8 Nid oes rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau yn yr ymgynghoriad os nad oes barn gennych; mae ymateb byr ar un pwynt yn unig yn iawn. Rydym yn croesawu ymatebion ar y cyd hefyd.

A1.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion i'r cwestiwn a ofynnir yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiwn wedi'i restru yn Atodiad 4. Byddai’n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam mae gennych y safbwyntiau sydd gennych, a beth rydych chi’n ei gredu y byddai effaith cynigion Ofcom.

A1.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch ag Amna Malik yn uniongyrchol drwy anfon neges e-bost i amna.malik@ofcom.org.uk

## Cyfrinachedd

A1.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion cyn y daw'r cyfnod ymgynghori i ben. Yn benodol, gall hyn helpu pobl a sefydliadau sydd ag adnoddau cyfyngedig neu gyfarwydd-deb â'r materion i ymateb mewn ffordd fwy gwybodus. Felly, er tryloywder ac arfer rheoleiddio da, ac oherwydd i ni gredu ei fod yn bwysig i bawb sydd â buddiant mewn mater fedru gweld barn ymatebwyr eraill, rydym fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori.

A1.12 Os credwch y dylai eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, nodwch ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol iddynt, ac esboniwch pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych eisiau i'ch enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill neu deitl swydd aros yn gyfrinachol, darparwch nhw ddim ond yn y daflen glawr, fel nad oes rhaid i ni olygu eich ymateb.

A1.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan, neu ran ohono, yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd datgelu ymlaen llaw, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb gydag adran berthnasol Llywodraeth y DU cyn ei gyhoeddi ar ein gwefan. Hon yw'r Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar gyfer materion yn ymwneud â'r post, a'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar gyfer pob mater arall.

A1.15 Noder hefyd y tybir bod yr hawlfraint a'r holl eiddo deallusol yn yr ymatebion wedi'u trwyddedu i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau Ofcom wedi'u hesbonio ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A1.16 Gan ddilyn y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad tua diwedd mis Ebrill neu yn rhan gyntaf mis Mai 2022.

A1.17 Os dymunwch, gallwch gofrestru i dderbyn diweddariadau post i'ch hysbysu am gyhoeddiadau newydd gan Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.18 Mae Ofcom yn ceisio gwneud ymateb i ymgynghoriad mor hawdd â phosib I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.19 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â sut rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, gyrrwch e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Yn benodol rydym yn croesawu syniadau ar sut y gallai Ofcom gywain barn grwpiau neu unigolion yn fwy effeithiol, megis busnesau bach a chwsmeriaid preswyl, sy'n llai tebygol o gyflwyno eu barn trwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.20 Os hoffech chi drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: ysgrifennyddygorfforaeth@ofcom.org.uk

# A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

## Mae gan Ofcom saith egwyddor y mae'n eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Pryd bynnag y bo'n bosib, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr, i ddarganfod a ydym ar y trywydd iawn o ran ein ffordd o feddwl. Os na fydd gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i esbonio ein cynigion, yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy yr ydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba gyfnod.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori mor fyr a syml â phosib, gyda throsolwg o ddwy dudalen ar y mwyaf. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am hyd at ddeg wythnos, gan ddibynnu ar effaith botensial ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun o fewn Ofcom â gofal sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain a cheisio cyrraedd y nifer mwyaf posib o bobl a sefydliadau a allai fod â buddiant yn neilliannau ein penderfyniadau. Y prif berson i gysylltu â hwy yw Eiriolwr Ymgynghori Ofcom os oes gennych farn am y ffordd yr ydym yn rhedeg ein hymgynghoriadau.

A2.6 Os na fydd modd i ni ddilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn esbonio pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Rydym yn credu ei fod yn bwysig i bawb sydd â buddiant mewn mater fedru gweld barn ymatebwyr eraill, felly rydym fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n esbonio beth rydym yn mynd i wneud, a pham, gan ddangos sut mae barn ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A3. Taflen glawr yr ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (cyswllt yn Ofcom):

Enw'r sawl sy'n ymateb:

Yn cynrychioli (chi eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os nad yw wedi'i dderbyn trwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod pa rannau o'ch ymateb sy'n gyfrinachol, gan roi eich rhesymau dros hynny

Dim byd ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________________________________

_____________________________________________________________________________________

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a all Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, ar gyfer unrhyw rannau cyfrinachol, crynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn galluogi i chi gael eich adnabod)?

## DATGANIAD

Cadarnhaf fod yr ohebiaeth a ddarperir gyda'r daflen glawr hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwyf yn deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u marcio'n gyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol." Os wyf wedi anfon fy ymateb trwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau e-bost.

Bwriad Ofcom yw cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori. Os yw eich ymateb yn anghyfrinachol (yn rhannol neu'n gyfan gwbl), a bod yn well gennych i ni gyhoeddi eich ymateb dim ond ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os yn gopi caled)

# A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad

A4.1 Mae Ofcom yn ceisio barn ar y ceisiadau hyn am amrywiad. Gall Ofcom roi cydsyniad i wyriad oddi wrth gymeriad pob un o'r gwasanaethau trwyddedig dim ond os yw'n fodlon nad oes yr un o'r meini prawf a nodir yn 19(3B) y Ddeddf ac amod 5(2) yr holl drwyddedau L-DTPS wedi'u bodloni.

A4.2 Yng ngoleuni'r ystyriaethau a nodir yn adran tri y ddogfen hon, mae Ofcom yn bwriadu rhoi caniatâd i wyriad oddi wrth cymeriadau pob un o'r gwasanaethau ar gyfer y saith trwydded sydd wedi'u cynnwys yn y cais hwn.

Gwahoddir ymatebwyr i roi sylwadau ynghylch a ydynt yn cytuno â phenderfyniadau cychwynnol Ofcom ac i fframio eu safbwyntiau a'u hymatebion gan gyfeirio at, neu yng nghyd-destun, y meini prawf statudol yn adran 19(3B) y Ddeddf Ddarlledu ac amod 5(2) y trwyddedau L-DTPS.

# A5. Cais am amrywiad gan Local TV Limited

## Cais am Amrywiad - Cardiff TV

**Newidiadau Arfaethedig i Allbwn Rhaglennu**

| **Ymrwymiad presennol (sef eich ymrwymiadau rhaglennu a gyhoeddir)** Gofynnir i chi gynnwys un newid i ymrwymiad yn unig fesul rhes, ychwanegwch fwy o resi i'r tabl fel y bo angen. | **Ymrwymiad allweddol diwygiedig/newydd arfaethedig** | **Rheswm dros y newid a gynigir** |
|---|---|---|
| Bydd gan amserlen raglennu'r gwasanaeth ffocws lleol.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn cynnwys cymysgedd o gynnwys lleol yn unig gyda chymysgedd o raglenni diddordeb cyffredinol "a gynhyrchir yn lleol" a chynnwys a gaffaelwyd sy'n cyd-fynd ag arddull ffordd o fyw a gwybodaeth y gwasanaeth.<br><br>Ar lefel leol bydd newyddion, materion cyfoes, adloniant lleol a chwaraeon yn rhan amlwg o'r gwasanaeth.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn darparu ar gyfer y gynulleidfa leol drwy gynnwys bwletinau newyddion lleol rheolaidd, gyda chyfartaledd o 25 o fwletinau newyddion lleol a beth sydd ymlaen yn lleol 90 eiliad bob dydd a ffrwd rheolaidd o raglenni llenwi i mewn lleol gan | Bydd amserlen raglennu'r gwasanaeth yn:<br><br>● Lleol o ran ei ffocws<br><br>● Cynnwys cymysgedd o gynnwys i'r ardal leol yn benodol gyda chymysgedd o raglennu diddordeb cyffredinol "a gynhyrchir yn lleol"<br><br>● Cynnwys bwletinau newyddion rheolaidd drwy gydol y dydd<br><br>● Rhoi llais i bobl leol drwy sbotiau llais y werin rheolaidd<br><br>● Adlewyrchu bywyd yn yr ardal drwyddedig a'r cylch, ac amrywiaeth y gymuned<br><br>● Darparu cymysgedd o gynnwys sy'n ymdrin â phynciau megis y tywydd, chwaraeon lleol, hanes, iechyd, | Mae Local TV am gyflawni cysondeb ar draws ei drwyddedau.<br><br>Diben y cais hwn yw diweddaru'r geiriad o fewn y drwydded i sicrhau bod gan deledu lleol hyblygrwydd o fewn ei amserlen ar yr un pryd â pharhau i ganolbwyntio ar newyddion, chwaraeon a beth sydd ymlaen yn lleol.<br><br>Bydd teledu lleol yn parhau i roi llais i gymunedau, bydd yn parhau i gynhyrchu bwletinau newyddion rheolaidd drwy gydol y dydd a bydd yn parhau i gefnogi busnesau lleol drwy ddarparu llwyfan fforddiadwy ar gyfer hysbysebu.<br><br>Mae newyddion, chwaraeon a beth sydd ymlaen yn lleol yn parhau i fod wrth wraidd y gwasanaeth.<br><br>Ni fydd cymeriad y gwasanaeth yn newid. |

| | | |
|---|---|---|
| gynnwys canllawiau digwyddiadau a llais y werin.<br><br>Bydd canllawiau digwyddiadau lleol a sbotiau llais y werin yn cael eu ffilmio o bryd i'w gilydd a'u darlledu yn ystod y dydd.<br><br>Bydd allbwn y gwasanaeth yn cefnogi busnesau lleol drwy ddarparu llwyfan fforddiadwy ar gyfer hysbysebu.<br><br>Bydd cynnwys sy'n benodol i'r ardal leol yn cyfrif am tua 40% o'r amserlen, bydd rhaglennu a rennir gyda thrwyddedeion L-DTPS eraill yn cyfrannu tua 15% a bydd gweddill yr amser awyr yn gyfuniad o gaffaeliadau a chynnwys masnachol.<br><br>Bydd rhaglennu a ddarlledir am y tro cyntaf yn cynnwys 2 awr o'r amserlen gyda'r hwyr, gyda 7 awr pellach (ailddarllediadau) o gynnwys lleol drwy gydol y dydd.<br><br>Bydd yr allbwn rhaglenni'n cynnwys y pynciau canlynol: enwogion, moduro, iechyd, gwella cartrefi, hanes, trosedd, sinema, bwyd, recriwtio, twristiaeth, y cyngor, bywyd nos, barn leol, eiddo, adloniant, personoliaethau lleol, chwaraeon, materion cyfoes, traffig, tywydd, digwyddiadau a newyddion. | sinema, y cyngor, materion cyfoes, digwyddiadau, traffig, trosedd, barn leol, adloniant a newyddion<br><br>Bydd newyddion, materion cyfoes, adloniant a chwaraeon lleol yn rhan amlwg o'r gwasanaeth. | |

**Newidiadau Arfaethedig i Oriau Penodedig**

| | **Oriau o raglennu lleol bob wythnos: Darllediadau tro cyntaf** | | |
|---|---|---|---|
| Ymrwymiad presennol (sef eich ymrwymiadau rhaglennu a gyhoeddir): | Blwyddyn 1: 37 awr yr wythnos | Blwyddyn 2: 37 awr yr wythnos | Blwyddyn 3: 37 awr yr wythnos |
| Ymrwymiad a gynigir: | Blwyddyn 1: 37 awr yr wythnos | Blwyddyn 2: 37 awr yr wythnos | Blwyddyn 3: 21 awr yr wythnos |
| Rheswm dros y newid a gynigir: | Nid oes gan Local TV unrhyw fwriad i newid ei amserlen ddyddiol. Mae'r cais am newid hwn yn cysoni Local TV â darlledwyr LTVN eraill ac yn safoni ymrwymiadau ar draws ei drwyddedau ei hun. Mae hyn hefyd yn caniatáu hyblygrwydd o fewn yr amserlen, sy'n golygu y gall Local TV wneud penderfyniadau i wasanaethu cynulleidfaoedd lleol yn well. | | |
| | **Oriau o raglennu lleol bob wythnos: Ailddarllediadau** | | |
| Ymrwymiad presennol (sef eich ymrwymiadau rhaglennu a gyhoeddir): | Blwyddyn 1: 34 awr yr wythnos | Blwyddyn 2: 21 awr yr wythnos | Blwyddyn 3: 21 awr yr wythnos |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ymrwymiad a gynigir: | Blwyddyn 1: 34 awr yr wythnos | Blwyddyn 2: 21 awr yr wythnos | Blwyddyn 3: 5 awr yr wythnos |
| Rheswm dros y newid a gynigir: | Nid oes gan Local TV unrhyw fwriad i newid ei amserlen ddyddiol. Mae'r cais am newid hwn yn cysoni Local TV â darlledwyr LTVN eraill ac yn safoni ymrwymiadau ar draws ei drwyddedau ei hun. Trwy leihau'r gofyniad am ailddarllediadau, mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i Local TV ddarlledu mwy o gynnwys lleol gwreiddiol o bryd i'w gilydd | | |
| | **Oriau o raglennu lleol bob wythnos yn yr oriau brig (18.00-22.30): Darllediadau tro cyntaf** | | |
| Ymrwymiad presennol (sef eich ymrwymiadau rhaglennu a gyhoeddir): | Blwyddyn 1: 14 awr yr wythnos | Blwyddyn 2: 14 awr yr wythnos | Blwyddyn 3: 14 awr yr wythnos |
| Ymrwymiad a gynigir: | Blwyddyn 1: 14 awr yr wythnos | Blwyddyn 2: 14 awr yr wythnos | Blwyddyn 3: 14 awr yr wythnos |
| Rheswm dros y newid a gynigir: | Dim newid wedi'i gynnig. | | |
| | **Oriau o raglennu lleol bob wythnos yn yr oriau brig (18.00-22.30): Ailddarllediadau** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ymrwymiad presennol (sef eich ymrwymiadau rhaglennu a gyhoeddir): | Blwyddyn 1: 7 awr yr wythnos | Blwyddyn 2: 7 awr yr wythnos | Blwyddyn 3: 0 awr yr wythnos |
| Ymrwymiad a gynigir: | Blwyddyn 1: 7 awr yr wythnos | Blwyddyn 2: 7 awr yr wythnos | Blwyddyn 3: 0 awr yr wythnos |
| Rheswm dros y newid a gynigir: | Dim newid wedi'i gynnig. | | |
| | **Oriau ac amserlenni rhaglennu newyddion a materion cyfoes lleol: Darllediadau tro cyntaf** | | |
| Ymrwymiad presennol (sef eich ymrwymiadau rhaglennu a gyhoeddir): | Blwyddyn 1: 8 awr yr wythnos | Blwyddyn 2: 8 awr yr wythnos | Blwyddyn 3: 8 awr yr wythnos |
| Ymrwymiad a gynigir: | Blwyddyn 1: 8 awr yr wythnos | Blwyddyn 2: 8 awr yr wythnos | Blwyddyn 3: 8 awr yr wythnos |
| Rheswm dros y newid a gynigir: | Dim newid wedi'i gynnig. | | |
| | **Oriau ac amserlenni rhaglennu newyddion a materion cyfoes lleol: Ailddarllediadau** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ymrwymiad presennol (sef eich ymrwymiadau rhaglennu a gyhoeddir): | Blwyddyn 1: 5 awr yr wythnos | Blwyddyn 2: 4 awr yr wythnos | Blwyddyn 3: 1 awr yr wythnos |
| Ymrwymiad a gynigir: | Blwyddyn 1: 5 awr yr wythnos | Blwyddyn 2: 4 awr yr wythnos | Blwyddyn 3: 1 awr yr wythnos |
| Rheswm dros y newid a gynigir: | Dim newid wedi'i gynnig. | | |